

## CYNGOR CYMUNED LLANFIHANGEL Y PENNANT

### **Cofnodion o gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd Nos Lun yr 8fed o Ionawr 2024 am 7.00yh yn y Ganolfan, Abergynolwyn.**

Presennol; Cyng. Emrys Thompson, Elwyn Evans, Robert D Jones, Gwynedd Roberts, Eleri Puw, Steve Lewis, Dylan Jarman, Bethan Lawton (Cyngor Gwynedd) a Huw T Jones (Clerc)

1. Estynwyd groeso cynnes i bawb gan y Cadeirydd Emrys Thompson, gan ddymuno Blwyddyn Newydd dda i bawb.  
Roedd ymddiheuriadau i law gan Cyng Miriam Webb.
2. Gwahoddwyd **ddatganiadau o ddi-dordeb** am faterion ar yr agenda, ond ni chafwyd unrhyw ddatganiad.

Nodwyd nad oedd unrhyw gais i gael cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.

3. **Cadarnhawyd gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd** ar y 13eg o Dachwedd ar gynnig Cyng Robert Jones, a'l eilio gan Cyng. Eleri Puw.

#### 4. **Materion yn codi**

a) **Torri gwair mynwentydd a'r cae chwarae** – atgoffwyd pawb mai Ionawr 15fed oedd y dyddiad cau am fynegiant diddordeb yn y gwaith a byddai rhaid trafod y tro nesaf.

b) **Gwaith paentio ar offer yn y Cae chwarae** – roedd y Clerc wedi cadarnhau gyda Luke Genders, ac roedd y cais iddo wneud y gwaith oddeutu cyfnod y Grogolith.

c) **Rheilffordd Talyllyn** – nodwyd y diweddaraf gyda cael wagen lechi ar gyrion y pentref. Roedd amcanbris o £6000 wedi ei grybwyll, ond roedd angen cael ffigwr cadarn a manwl gan Liz Porrett cyn symud ymlaen I wneus cais grant drwy Gyngor Gwynedd. Byddai'r Clerc yn cysylltu efo hi.

d) **Coeden yn difrodi wal** – roedd ychydig o waith gyda'r canghennau wedi ei wneud, ond byddai angen ei thorri mor fuan ag y byddai hyn yn bosib.

e) **Safle Treftadaeth** – nid oedd mwy l'w drafod, ond nodwyd fod angen cael taflenni yn y Saesneg. Addawodd Cyng Gwynedd Roberts edrych I mewn I hyn. .

f) **Hyfforddiant Cynghorwyr**, Cadarnhawyd fod Cyng Miriam Webb a Robert Jones wedi bod ar y cwrs ar y cod ymddygiad Modiwl 9 a oedd wedi ei gynnal ar yr 22ain o Dachwedd. Canmolwyd y cwrs fel un da a defnyddiol. Amlinellwyd y cyrsiau oedd ar gael yn Ionawr/Chwefror a Mawrth a oedd wedi ei ddanfôn I'r Cynghorwyr ymlaenllaw. Roedd angen I bawb gysylltu gyda Huw os oeddynt am gymryd rhan.

g) **Polisiau i'w mabwysiadu cyn eu rhoi ar y wefan – cyfeiriwyd at y polisi** Cyfle Cyfartal, a nodwyd fod angen ychwanegu LGBT / LGBTQ lle mae cyfeiriad at Datganiad Sylfaenol 1.

**h)** Gwrych yn gor-dyfu ar Heol Llanegryn – roedd ymateb Cyngor Gwynedd wedi ei ddsbarthu i'r Cynghorwyr. Nodwyd fodd bynnag fod hyn yn broblem mewn sawl man yn y pentref, a oedd yn achosi i geir barcio ar y ffordd.

## **5. Materion Cynllunio**

Nid oedd unrhyw geisiadau I law ers y cyfarfod diwethaf.

## **6. Materion Cyllid.**

Penderfynwyd, ar gynnig Cyng Elwyn Evans a'i eilio gan Cyng Gwynedd Roberts, a gyda chefnogaeth unfrydol y Cynghorwyr, i dalu y canlynol;

Anfoneb Scott Taylor (cynnal a chadw gwefan y Cyngor Ionawr – Medi 2023) - £60.

Anfoneb Jones & Jones - cynnal a chadw llwybrau rhifau 3/4/5/10/19/20/33/43 - £852.00 (byddai'r Clerc yn trefnu ad-daliad a geir gan Gyngor Gwynedd yn ol yr arfer)

Anfoneb Richard Griffiths – agor bedd i'r diweddar William Davies - £50.

Lwfansau Cynghorwyr (trefniadau gweithio gartref a nwyddau traul) 2023-24, sef £156. (cafwyd datganiad a derbynneb wedi ei arwyddo gan yr holl Gynghorwyr)

Cydnabyddiaeth y Clerc (trydydd chwarter), sef £400.01, a HMRC £100.

Nodwyd gyllideb ddrafft wedi ei pharatoi gan y Clerc, a dosbarthwyd hon ymysg y Cynghorwyr. Yng nghyswllt hyn, ac ar sail y gyllideb, trafodwyd y praesept ar gyfer 2024-25. Ar gynnig Cyng Robert Jones a'i eilio gan Cyng Gwynedd Roberts, a gyda chefnogaeth unfrydol, cytunwyd i godi y praesept i £12,000.00.

Cadarnhawyd fod y Cyngor yn cadw arian wrth gefn ar gyfer gwelliannau i'r maes chwarae, cyfraniad tuag at y bwriad i osod wagen lechi a'r safle treftadaeth, - a'r cyfan er mwyn gwella'r economi, lles pentrefwyr, trigolion yr ardal ac ymwelwyr.

Nodwyd bod cyfrifon 2020-21 a 2021-22 wedi eu dychwelyd gan yr Archwilydd allanol a'u cwblhau, a bod hysbyseb wedi ei roi ar y wefan a'r hysbysfwrdd.

## **7. Adroddiad Cynghorydd Beth Lawton (Cyngor Gwynedd)**

Adroddwyd am gyfarfod o'r Bwrdd lechyd a gafodd ei ganslo munud olaf, ond bod newyddion da am 2 nyrs wedi dod I weithio I Dywyn o Ddolgellau, a bod golwg llawer mwy positif ar y sefyllfa.

Nodwyd fod toriadau enfawr yng nghyllideb Cyngor Gwynedd oherwydd setliad gwael gan Lywodraeth Cymru, a byddai toriadau yn anorfod.

Adroddodd o Gyngor Coleg Meirion Dwyfor a bod buddsoddiad enfawr ar y gweill.

## **8..Adroddiad Cyng. Elwyn Evans , cynrychiolydd Un Llais Cymru.**

Adroddwyd o'r Pwyllgor Polisi ar y 1af o Ragfyr, a'r Pwyllgor Gwaith Cenedlaethol ar y 15fed o Ragfyr. Roedd pryder am ddiffyg cynrychiolaeth ar bwyllgorau a'r Cyfarfod Blyneddol, ond bod yr ochr ariannol yn gwella. Soniwyd hefyd am Bwyllgor Ardal Meirionnydd, a thrafodaeth ar gael WI-Fi mewn pentrefi. Nodwyd y dylai cael Wi-fi /signal ffon i bob cartref gael blaenoriaeth.

## 9. Gohebiaeth.

a) Materion mynwent Llanfihangel y Pennant

- Roedd claddu llwch y diweddar William Davies wedi ei wneud yn bedd y teulu ar Ddydd Sadwrn 9fed o Ragfyr, ac roedd Richard Griffiths wedi gwneud y gwaith o agor bedd.
- Ers y cyfarfod diwethaf, roedd sic o £481 I law yn dilyn claddu llwch y diweddar Suzanne Llywarch. Hefyd £121 am osod beddfaen , ynghyd a £121 ar gyfer John Smith a £121 ar gyfer RC Bott (cyfanswm o £363)

b) Nodwyd y gohebiaeth a ganlyn, a byddai'r Clerc y neu danfon oddiamgylch;

- Strategaeth Hamdden Parc Cenedlaethol Eryri 2024-29
- Timau tacluso 'Ardal Ni'

## 10. Unrhyw fater arall

- Roedd twll yn y ffordd (hy sianel heb ei llenwi) ger Dolffanog Fach/gawelod Staer Dywyll, ac angen danfon at yr Adran Briffordd Cyngor Gwynedd.

**DYDDIAD CYFARFOD NESAF; Y GANOLFAN ABERGYNOLWYN NOS LUN 12fed Chwefror 2024 , 7.00y.h.**

---

### LLANFIHANGEL Y PENNANT COMMUNITY COUNCIL

Minutes of a meeting of the Council held on Monday evening the 8th of January 2024 at 7.00pm in the Ganolfan, Abergynolwyn.

Present; Cllr. Emrys Thompson, Elwyn Evans, Robert D Jones, Gwynedd Roberts, Eleri Puw, Steve Lewis, Dylan Jarman, Bethan Lawton (Gwynedd Council) and Huw T Jones (Clerk)

1. Chairman Emrys Thompson extended a warm welcome to everyone, wishing everyone a happy New Year.

Apologies were received from Cllr Miriam Webb.

2. Statements of interest were invited for issues on the agenda, but no statement was received.

It was noted that there was no request to have presentations from members of the public on an issue on the Agenda.

3. The minutes of the meeting held on the 13th of November were confirmed on the proposal of Cllr Robert Jones, seconded by Cllr. Eleri Puw.

4. Matters arise

a) Cutting the grass of cemeteries and the playing field - everyone was reminded that January 15th was the closing date for expressions of interest in the work and it would have to be discussed next time.

b) Painting work on equipment in the Playground - the Clerk had confirmed with Luke Genders, and the request for him to do the work was around the Easter period.

c) Talylyn Railway - the latest position was noted with regard to having a slate wagon on the outskirts of the village. An estimate of £6000 had been mentioned, but it was necessary to get a firm and detailed figure from Liz Porrett before proceeding with a grant application through Gwynedd Council. The Clerk would contact her.

d) Tree damaging a wall - some work with the branches had been done, but it would need to be cut as soon as possible.

e) Heritage Site - there was nothing more to discuss, but it was noted that there was a need to have leaflets in English. Cllr Gwynedd Roberts promised to look into this. .

f) Councillors' Training, It was confirmed that Cllr Miriam Webb and Robert Jones had been on the course on the Module 9 code of conduct which had been held on the 22nd of November. The course was praised as good and useful. The courses available in January/February and March were outlined which had been delivered to the Councilors in advance. Everyone needed to contact Huw if they wanted to participate.

g) Policies to be adopted before putting them on the website - reference was made to the Equal Opportunity policy, and it was noted that it was necessary to add LGBT / LGBTQ where there is a reference to Basic Statement 1. .

h) Hedge overgrowing on Llanegryn Road - Gwynedd Council's response had been distributed to the Councillors. It was noted however that this was a problem in many places in the village, which caused cars to park on the road.

#### 5. Planning Matters

There were no applications received since the last meeting.

#### 6. Finance Matters.

It was decided, on the proposal of Cllr Elwyn Evans and seconded by Cllr Gwynedd Roberts, and with the unanimous support of the Councillors, to pay the following;

Scott Taylor - invoice (maintenance of the Council's website January – September 2023) - £60.

Jones & Jones - invoice - maintenance of paths numbers 3/4/5/10/19/20/33/43 - £852.00 (the Clerk would arrange a refund received from Gwynedd Council as usual)

Richard Griffiths - invoice - opening a grave for the late William Davies - £50.

Councillors Allowances (home working arrangements and consumables) 2023-24, being £156. (there was a statement and receipt signed by all the Councillors)

The Clerk's Remuneration (third quarter), namely £400.01, and HMRC £100.

A draft budget prepared by the Clerk was noted, and this was distributed among the Councillors. In relation to this, and on the basis of the budget, the precept for 2024-25 was discussed. On the proposal of Cllr Robert Jones and seconded by Cllr Gwynedd Roberts, and with unanimous support, it was agreed to raise the precept to £12,000.00.

It was confirmed that the Council keeps reserve funds for improvements to the playground, a contribution towards the intention to install a slate wagon and the heritage

site, - and all in order to improve the economy, the welfare of villagers, residents of the area and visitors.

It was noted that the 2020-21 and 2021-22 accounts had been returned by the external Auditor and completed, and that an advertisement had been placed on the website and the notice board.

#### 7. Councillor Beth Lawton's report (Gwynedd Council)

It was reported about a meeting of the Health Board had been cancelled at the last minute, but that there was good news about 2 nurses coming to work in Tywyn from Dolgellau, and that there was a much more positive view of the situation.

It was noted that there were huge cuts in Gwynedd Council's budget due to a poor settlement by the Welsh Government, and cuts would be inevitable.

He reported from the Coleg Meirion Dwyfor Council and that a huge investment was planned.

#### 8. Cllr.'s Report. Elwyn Evans, representative of One Voice Wales.

It was reported from the Policy Committee on the 1st of December, and the National Executive Committee on the 15th of December. There was concern about a lack of representation on committees and the Annual Meeting, but that the financial side is improving. The Meirionnydd Area Committee was also mentioned, and a discussion on having WI-Fi in villages. It was noted that having Wi-fi /phone signal for every home should be given priority.

#### 9. Correspondence.

##### a) Matters of Llanfihangel y Pennant cemetery

- The burial of the ashes of the late William Davies had been done in the family grave on Saturday 9th December, and Richard Griffiths had done the work of opening the grave.

- Since the last meeting, a check of £481 was received following the burial of the ashes of the late Suzanne Llywarch. Also £121 for placing a headstone, plus £121 for John Smith and £121 for RC Bott (total £363)

b) The following correspondence was noted, and the Clerk would send it around;

- Snowdonia National Park Leisure Strategy 2024-29
- 'Ardal Ni' tidying up teams

10. Any other matter

- There was a hole in the road (ie an unfilled channel) near Dolfanog Fach/bottom of Staer Dywyll, and it needs to be drawn to the attention of Gwynedd Council Highway Department.

DATE OF NEXT MEETING; Y GANOLFAN ABERGYNOLWYN MONDAY 12th February 2024,  
7.00 p.m.